

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	13.03.2019
TEITL YR ADRODDIAD:	Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Gorffennaf 2018 a Hydref 2018
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr Llywodraethiant Corfforaethol mwyys@ynysmon.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@anglesey.gov.uk 01248 752586

1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi [Coflyfr o Gwynion Côt Ymddygiad](#) unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei [Goflyfr ar gyfer Gorffennaf 2018](#) (Rhifyn 17) a'r [Coflyfr ar gyfer Hydref 2018](#) (Rhifyn 18). Mae crynodeb o'r achosion yn Rhifyn 17 ynghlwm yn **ATODIAD 1** a Rhifyn 18 ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu côd ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r côd ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a

- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

- (a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;
- (b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;
- (c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;
- (d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy driwlynlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu driwlynlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawriad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwys, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb. Mae gan driwlynlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwys hyd at 5 mlynedd.

Tra bod gan y PDC statws cyfreithiol fel triwlynlys a'i fod wedi cyhoeddi ei benderfyniadau erioed (yn cynnwys unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r pwyllgor safonau) nid oedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi ei adroddiadau na'i ganfyddiadau, ond, yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno'r Coflyfr chwarterol sy'n darparu crynodeb o achosion. Bydd unrhyw beth a gyfeirir at bwyllgor safonau, wrth gwrs, ar gael ar wefan y Cyngor perthnasol.

3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1** ac **ATODIAD 2**.

ATODIAD 1 – Rhifyn 17 (Gorffennaf 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côd	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (201704719)	Cwynodd gweithiwr bod Cynghorydd a oedd yn bresennol mewn cyfarfod staff, wedi cyfeirio at rai aelodau o staff fel 'dynion meirw'n cerdded'. Dywedodd yr Achwynydd bod y Cynghorydd wedi gwneud sylwadau pellach a arweiniodd aelodau staff eraill i ddod i'r casgliad bod yr ymadrodd hwn yn cyfeirio ato ef. Dywedodd yr Achwynydd fod hyn wedi ei roi mewn ofn am ei swydd. Yn absenoldeb unrhyw gofnod ffurfiol o'r cyfarfod, cafodd detholiad o'r rhai oedd yn bresennol eu cyfweld gan yr Ombwdsmon, yn ogystal â'r Cynghorydd, yr Achwynydd a'i reolwr. Ystyriodd yr Ombwdsmon yr hyn a ddywedodd y Cynghorydd, ei esboniad o'r hyn yr oedd wedi'i olygu a sut y derbyniwyd ei sylwadau.	Paragraffau 4 (b) – parch, 4(c) – ymddwyn fel bwli, 6(1)(a) – dwyn anfri, a 7(a) – creu anfantais i eraill	• Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth fod y Cynghorydd wedi torri'r Côd. • Er i'r ymadrodd "dynion meirw'n cerdded" gael ei ddefnyddio, nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn bod y sylwad wedi'i gyfeirio'n benodol at yr Achwynydd neu fod bwriad iddo gael ei weld fel bygythiad i swydd unrhyw un.	• Dylai aelodau fod yn ymwybodol o sut mae eu sylwadau yn ymddangos i eraill.
Cyngor Tref Cas-gwent (201703539)	Derbyniwyd cwyn bod aelod o Gyngor Tref Cas-gwent wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch trefniadau perchnogaeth a rheolaeth yn y dyfodol ar gyfer cyfleuster cyhoeddus lleol mewn cyfarfod Cyngor Tref, er ei fod wedi datgan diddordeb personol yn y mater.	Paragraff 14(1) (a), (c) a (e) – mewn perthynas â'r cyfyngiadau a roddir ar Gynghorwyr ynghylch diddordeb sy'n rhagfarnu	• Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon ei bod hi'n debygol fod y Cynghorydd wedi siarad yn y cyfarfod, er bod ganddo ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu yn yr eitem, yn groes i ofynion y Côd	• Rhaid i Aelodau fod yn hyderus eu bod yn deall beth sydd angen iddynt wneud pan fyddant yn datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu • Dengys y canlyniad

ATODIAD 1 – Rhifyn 17 (Gorffennaf 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			Ymddygiad. - Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith fod y dystiolaeth yn awgrymu y cafodd y Côt ei dorri, penderfynodd yr Ombwdsmon na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach. - Roedd hyn oherwydd nad oedd y Cynghorydd yn sefyll i elwa'n bersonol o unrhyw benderfyniad a wnaed, awgrymodd y dystiolaeth ei fod wedi gadael yr ystafell ar gyfer y bleidlais, ni chafodd yr opsiwn yr oedd ef yn ei ffafrio ei gytuno gan y Cyngor a dywedodd Cadeirydd y Cyngor y gallai siarad. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Ombwdsmon atgoffa'r Cynghorydd o'i ddyletswyddau mewn perthynas â diddordebau personol sy'n rhagfarnu	fod yr Ombwdsmon yn ystyried effaith y toriad wrth ystyried pa gamau i'w cymryd; Nid yw torri'r Côt o reidrwydd yn golygu y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ofalus rhag dibynnu ar achos o'r fath fel amddiffyniad. Dylai Aelodau sicrhau eu bod yn dilyn gofynion y Côt Ymddygiad.
Cyngor Cymuned	Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côt	Paragraff 7(a) – creu anfantais i	Canfu'r Ombwdsmon y gallai'r Cynghorydd fod	Ni ddylai Aelodau ddefnyddio eu

ATODIAD 1 – Rhifyn 17 (Gorffennaf 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
Tryleg Unedig (201700946)	Ymddygiad ar gyfer aelodau pan ysgrifennodd y Cynghorydd at feirniad cystadleuaeth, gan roi'r argraff ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd o'r Cyngor. Roedd y Cynghorydd yn ceisio dylanwadu'n negyddol ar gyfle cystadleuydd penodol rhag ennill y gystadleuaeth a thrwy hynny, creu anfantais i aelod o'r cyhoedd a fyddai'n elwa pe bai'r cystadleuydd hwnnw'n llwyddiannus.	eraill	wedi torri paragraff 7(a) drwy ysgrifennu at y beirniad gyda gwybodaeth wedi'i fwriadu i leihau'r tebygolrwydd o'r cystadleuydd penodol hwnnw'n ennill y gystadleuaeth, a drwy lofnodi'r ohebiaeth honno fel Cynghorydd. - Nododd yr Ombwdsmon, fodd bynnag, fod y cystadleuydd wedi ennill y gystadleuaeth ar ôl hynny, felly ni achosodd ymyriad y Cynghorydd anfantais wirioneddol i'r person dan sylw. - Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, at ei gilydd, nad oedd er budd y cyhoedd i gyfeirio'r mater hwnnw at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru ac felly na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.	capasiti swyddogol i greu anfantais i eraill - Dengys y canlyniad fod yr Ombwdsmon yn ystyried effaith y toriad wrth ystyried pa gamau i'w cymryd; nid yw torri'r Côt o reidrwydd yn golygu y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd camau pellach. Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ofalus rhag dibynnu ar achos o'r fath fel amddiffyniad. Dylai Aelodau geisio sicrhau eu bod yn dilyn gofynion y Côt Ymddygiad. - Mae'r Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio Prawf Budd y Cyhoedd

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
Cyngor Tref Saltney (201707925)	Cwyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad drwy gymryd rhan, a phleidleisio ar, benderfyniad i ddyfarnu grant i sefydliad elusennol yr oedd hi'n Gadeirydd arno.	Paragraff 10, 11, 12, 14 – mewn perthynas â datgelu diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu	- Fel Cadeirydd y sefydliad, roedd y Cynghorydd yn debygol o fod â diddordeb personol a diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y mater ac ni ddylai'r Cynghorydd fod wedi cymryd rhan oni bai bod eithriad yn gymwys neu ei bod wedi derbyn caniatâd arbennig. - Roedd y Cynghorydd wedi cydnabod hyn ac wedi ystyried gwneud cais am ganiatâd arbennig. Fodd bynnag, cafodd ei chynghori gan swyddog o'r Cyngor Sir nad oedd hynny'n angenrheidiol gan fod eithriad ym mharagraff 12(2)(a)(ii) o'r Côt yn gymwys ac felly bod modd iddi gymryd rhan. - Roedd y Cynghorydd felly yn gweithredu'n ddiidwyll ar sail y cyngor a roddwyd iddi. - Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y dystiolaeth yn awgrymu nad oedd y Cynghorydd	- Mae paragraff 12(2)(a)(ii) y Côt Ymddygiad yn cynnwys eithriad sy'n gymwys pan fod mater yn ymwneud ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae Aelod mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol - Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 12(3), nid yw'r eithriadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r mater yn ymwneud â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			wedi torri'r Côt	
Cyngor Sir Powys (201701865)	Cwyn am ymddygiad Cynghorydd yn ystod cyfarfod llunio rhestr fer i drafod ceisiadau ar gyfer swydd Pennaeth ysgol newydd.	Paragraff 4 – cydraddoldeb a pharch; bwlio ac aflonyddu; Paragraff 6 – dwyn anfri.	Dim tystiolaeth fod y Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad. Nid oedd angen gweithredu.	
Cyngor Cymuned Maenorbŷr (201708037)	Cwyn bod Cynghorydd wedi bod yn ddifriol ar lafar ac wedi bwlio aelod o'r cyhoedd yn ystod cyfarfod Cyngor Cymuned.	Paragraff 4 – parch ac ystyriaeth; bwlio ac aflonyddu; Paragraff 6 – dwyn anfri.	- Cafodd pum tyst eu cyfweld a'r cydsyniad oedd nad oedd y Cynghorydd wedi dweud na gwneud unrhyw beth yn ystod y cyfarfod a wnaeth beri gormod o bryder iddynt. - Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Côt.	
Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd (201800122)	Cwyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad drwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am adnoddau dynol a gwybodaeth gyllidol gyfrinachol.	Paragraff 5 – datgelu gwybodaeth gyfrinachol	Nid oedd tystiolaeth i awgrymu fod y Cynghorydd wedi rhannu unrhyw wybodaeth yn amhriodol, ac felly nid oedd tystiolaeth fod y	

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			Côt wedi cael ei dorri.	
Cyngor Cymuned Sili a Larnog (201706912)	Cwyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad drwy anfon e-bost at ei gyd-gynghorwyr a oedd yn amharchus ac yn sarhaus am Gynghorydd arall. Cyfwelwyd y Cynghorydd yn ogystal ag aelodau eraill y Cyngor Cymuned (yn cynnwys y Cynghorydd y cyfeiriwyd ato yn yr e-bost). Cydnabu'r Cynghorydd na ddylai fod wedi anfon yr e-bost a bod hynny'n amhriodol. Mynegodd y Cynghorydd edifeirwch am ei weithredoedd a dywedodd na fyddai'n ymddwyn yn y modd hynny eto. Eglurodd y Cynghorydd, fel ffactorau lliniaru, bod cysylltiadau o fewn y Cyngor yn anodd ar hyn o bryd, a'i fod wedi derbyn sawl e-bost beirniadol gan y Cynghorydd dan sylw ac nad oedd wedi bwriadu copïo'r e-bost i holl aelodau'r Cyngor – cafodd hynny ei wneud ar ddamwain wrth ymateb i e-bost blaenorol.	Paragraffau 4(a) a (b) – cydraddoldeb a pharch	- Mae'n debygol fod y Cynghorydd wedi torri'r Côt ond, oherwydd y ffactorau lliniaru, cyfraniad y Cynghorydd a'i addewid i beidio ag ymddwyn yn y modd hynny eto, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai er budd y cyhoedd i gyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau. - Ni chafodd unrhyw gamau eu cymryd	- Mae'r Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio Prawf Budd y Cyhoedd - Mae'r Ombwdsmon yn cymryd i ystyriaeth ffactorau lliniaru megis perthynas anodd o fewn Cyngor - Rhaid i Gynghorwyr ddeall y pwysigrwydd y mae'r Ombwdsmon yn ei roi ar gydnabod camgymeriad, mynegi edifeirwch a chytuno i ymddwyn mewn modd gwahanol yn y dyfodol.
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Cwyn am ymddygiad cyn-gynghorydd ar Gyngor Sir	Paragraff 6 – (1)(a) dwyn anfri;	Gan na chafodd y Cynghorydd ei hail-ethol	Mae'r Ombwdsmon yn parhau i

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
(201606614)	Gaerfyrddin tuag at Brif Weithredwr y Cyngor a swyddogion y Cyngor ar 2.12.2016.	Paragraff 4 – (b) parch ac ystyriaeth; Paragraff 7 – (a) cam-drin capasiti swyddogol	yn etholiad Mai 2017, roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd y materion yn ddigon difrifol i fod o fudd i'r cyhoedd i'w ymchwilio ymhellach. Nid oedd angen gweithredu mewn perthynas â'r materion a ymchwiliwyd.	ddefnyddio Prawf Budd y Cyhoedd - Rhoddir ystyriaeth wahanol i faterion yn ymwneud â chyn-gynghorydd o gymharu â chynghorydd etholedig sydd yn parhau yn y swydd. - Os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu fod angen ymchwilio i gŵyn, gall yr Ombwdsmon ddod i un o bedwar canfyddiad: (a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri; (b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad; (c) y dylid cyfeirio'r

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
				mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; (d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer). • Os yw'r unigolyn yn aelod o fwy nag un awdurdod e.e. cyngor sir a chyngor cymuned / mwy nag un cyngor cymuned, gall yr Ombwdsman ddefnyddio opsiwn (c) neu (d) mewn perthynas â'r 'awdurdod perthnasol', yn hytrach na'r un lle gwnaeth yr aelod dorri'r Côt. Er enghraifft, petai'r unigolyn hwn yn

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côd	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
				aelod o gyngor cymuned hefyd, er nad oedd mwyach yn aelod o'r awdurdod lle cafodd y Côt ei dorri (Cyngor Sir Gaerfyrddin), byddai'r gosb am dorri Côt Ymddygiad Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi ei roi iddo yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r cyngor cymuned.
Cyngor Cymuned Cleirwy (201704165)	Cwyn bod Cynghorydd wedi cymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar gais gynllunio lleol heb ddatgan diddordeb; yn ychwanegol roedd rhaid i'r Ombwdsmon ystyried a oedd gan y Cynghorydd feddwl caeedig pan fynychodd ddau gyfarfod Cyngor Cymuned ym mis Medi a Hydref 2017.	Paragraffau 10, 11, 12, 14 – mewn perthynas â datgan diddordeb personol a diddordeb personol sy'n rhagfarnu	- Nid oedd tystiolaeth fod gan y Cynghorydd ddiddordeb personol yn y cais cynllunio ac o ganlyniad nid oedd ganddo ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu chwaith. - Roedd y Cynghorydd yn rhagdueddol ac nad oedd wedi rhagbenderfynu pan fynychodd y cyfarfod cyntaf a phleidleisio. - Nid oedd digon o	

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			dystiolaeth i gefnogi'r haerriad bod y Cynghorydd wedi rhag-benderfynu yn yr ail gyfarfod. Nid oedd tystiolaeth fod y Côt Ymddygiad wedi cael ei dorri.	
Cyngor Cymuned Llai (201702478)	Cwyn bod ymddygiad Cynghorydd wedi bod yn amharchus a'i fod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ystod cyfarfod o Gyngor Cymuned Llai. Roedd y Cynghorydd hefyd wedi defnyddio ei safle i roi preswlydd lleol dan anfantais a'i fod wedi methu â datgan diddordeb yn y mater. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi dwyn anfri ar ei swydd fel aelod. Casglwyd gwybodaeth gan y Cyngor a chynhaliwyd cyfweiliadau â thystion y cyfarfod a'r aelod.	Paragraff 4 – parch. Paragraff 5(a) – Datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Paragraff 6 – dwyn anfri. Paragraff 7(a) – creu anfantais i eraill.	- Roedd y Cynghorydd wedi cyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynghylch y mater hwn ar ran ei etholwr. - Nid oedd tystiolaeth fod y Cynghorydd wedi defnyddio ei safle i sicrhau anfantais i aelod o'r cyhoedd neu fod ganddo ddiddordeb yn y mater. - Fe wnaeth y Cynghorydd ddatgan gwybodaeth yn ystod y cyfarfod ond nid oedd yn wybodaeth gyfrinachol. - Roedd gan yr Ombwdsmon bryder am sylwadau personol a wnaed gan y Cynghorydd am aelod	Dylai Cynghorwyr fod yn ymwybodol o'r sylwadau y maent yn eu gwneud mewn cyfarfodydd Cyngor cyhoeddus, yn arbennig mewn perthynas â sylwadau personol / sylwadau am unigolion eraill.

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			o'r cyhoedd wrth annerch y Cyngor. Nid oedd y sylwadau'n ychwanegu unrhyw werth at ystyriaeth y Cyngor o'r mater ac nid oeddent yn briodol nac yn angenrheidiol.	
Cyngor Sir Ceredigion (201701091)	Cwynodd Mr X fod Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad pan fynychodd y Cynghorydd gyfarfod yr oedd swyddog y Cyngor wedi'i gynghori i beidio â'i fynychu. Cwynodd Mr X hefyd am ymddygiad y Cynghorydd tuag at bobl benodol yn y cyfarfod.	Paragraffau 8(a) – rhoi sylw i gyngor a ddarperir gan swyddog y Cyngor; 4(b) – dangos parch, 4(c) – ymddwyn fel bwli a 6(1)(a) – dwyn anfri.	- Ni chanfu'r Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth fod y Cynghorydd wedi derbyn cyngor gan swyddog y Cyngor i beidio â mynychu'r cyfarfod neu fod y modd y siaradodd â'r rhan fwyaf oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn mynd tu hwnt i derfynau ymddygiad proffesiynol. - Canfu'r Ombwdsmon fod ymagwedd gadarn y Cynghorydd wedi cael effaith ar unigolyn yn y cyfarfod a dylai'r Cynghorydd fod wedi addasu ei ymddygiad tuag ato, yn enwedig gan fod y Cynghorydd wedi cwrdd ag o yn flaenrol ac wedi ei	- Mae'r Ombwdsmon yn parhau i ddefnyddio Prawf Budd y Cyhoedd - Rhaid i Gynghorwyr ystyried eu cynulleidfia a'r math o ymddygiad sy'n briodol o dan yr amgylchiadau

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			ddisgrifio fel 'nerfus'. Er i'r Cynghorydd gael ei atgoffa i newid ei ymddygiad ar gyfer y gynulleidfa, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad, ar y cyfan, nad oedd o fudd i'r cyhoedd i gyfeirio'r mater at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru ac felly na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.	
Cyngor Tref Neyland (201703026)	Cwyn y gallai Cynghorydd fod wedi defnyddio ei safle'n amhriodol drwy geisio rhoi terfyn ar brosiect yr oedd y Cyngor tref eisoes wedi cytuno ei gefnogi. Honnwyd bod gan y Cynghorydd fuddiant busnes yn y mater. Derbyniodd yr Ombwdsmon wybodaeth berthnasol am y mater a chynhaliodd gyfweiliadau â thystion. Rhoddodd y Cynghorydd ei sylwadau ar y gŵyn ar ddechrau'r ymchwiliad, ond ni ymatebodd i gais i gael ei gyfsweld.	Paragraff 6(1)(a) – dwyn anfri. Paragraff 7(a) – defnyddio safle i sicrhau mantais. Paragraff 11(1) a Pharagraffau 14(1)(a),(c),(d) ac (e) – yn ymwneud â datgelu diddordebau personol a diddordebau personol sy'n rhagfarnu	• Daeth yr Ombwdsman i'r casgliad fod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri'r Côt Ymddygiad a chyfeiriodd y mater i gael ei ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. • Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad fod y Cynghorydd wedi torri'r Côt Ymddygiad. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylai'r Cynghorydd gael ei geryddu. • Mae copi o benderfyniad	• Erbyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried y mater, nid oedd y Cynghorydd bellach yn aelod o'r Cyngor Tref.

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			y Pwyllgor Safonau yn Atodiad 3.	
Cyngor Sir Fynwy (201604188)	Cwyn fod Cynghorydd wedi anfon e-byst i'r achwynwr, wrth weithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Cyngor. Roedd yr achwynwr o'r farn bod yr e-byst yn cynnwys sylwadau nad oedd yn dangos parch nac ystyriaeth at aelodau'r gymuned LHDT.	Paragraff 4(b) – parch ac ystyriaeth	• Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y sylwadau a wnaethpwyd yn gywilyddus ac nad oedd unrhyw reswm dros ddefnyddio iaith o'r fath i gael y wybodaeth yr oedd ei hangen arno am y modd yr oedd y Cyngor yn defnyddio ei gronfeydd, neu hyd yn oed i fynegi ei farn. • Canfu'r Ombwdsmon y gallai'r sylwadau a wnaed a'r iaith a ddefnyddiwyd fod gyfwerth â methiant i ddangos parch ac ystyriaeth am eraill ac roedd tystiolaeth i awgrymu bod y Côt wedi cael ei dorri. • Cyfeiriodd yr Ombwdsmon y mater at Banel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys. • Penderfynodd y	• Trafododd yr Ombwdsmon yr achos hwn ym Mhwyllgor Safonau Cymru yn Aberystwyth ym mis Medi 2018 a dywedodd y rhoddir ystyriaeth ddifrifol iawn i barch ac ystyriaeth i eraill, a sylwadau'n ymwneud â materion cydraddoldeb.

ATODIAD 2 – Rhifyn 18 (Hydref 2018)

Enw'r Cyngor	Crynodeb o'r Gŵyn	Rhan Berthnasol o'r Côt	Crynodeb o'r Penderfyniad	Canfyddiadau
			tribiwnlys y dylid atal y Cynghorydd o'r Cyngor am gyfnod o ddau fis. • Trafodir y mater hwn yn eitem 5 ar y Rhaglen – Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru.	

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWYLLGOR 2, NEUADD Y SIR, HWLFFORDD DDYDD MERCHER, 5 MEDI 2018 am 10.00 y.b.

Presennol:

Mr Andre Morgan (Cadeirydd), Ms Suzanne Lewis, Ms Corinna Kershaw, Ms Sian Vaughan, Mr Nick Watt; a'r Cynghorwyr Cymunedol Paul Hannon a Iain Wood.

Swyddogion yn bresennol:

Claire Jones, Swyddog Monitro
Rhian Young, Dirprwy Swyddog Monitro
Jenny Captao, Clerc Pwyllgor

Hefyd yn bresennol:

Sinead Cook, Cynrychiolydd o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Viv Stoddart a Tony Wilcox

9. Datganiadau o Ddiddordeb Personol

Anerchodd y Swyddog Monitro y Pwyllgor a dywedodd nad oedd y Cynghorwyr Viv Stoddart a Tony Wilcox yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd y buddiannau personol a rhagfarnol y dywedasant yn y cyfarfod diwethaf mewn perthynas â'r mater hwn fel a ganlyn:

Datganodd y Cynghorydd Tony Wilcox fudd personol a rhagfarnol mewn perthynas ag Eitem 9 yn rhinwedd ei fod yn yr un grŵp gwleidyddol fel tyst a enwir yn yr ymchwiliad.

Datganodd y Cynghorydd Viv Stoddart fudd personol a rhagfarnol yn yr eitem hon o fusnes yn rhinwedd ei fod yn ffrind gyda thyst a enwir yn yr ymchwiliad a thynnodd yn ôl o'r Cyfarfod.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn y cyfarfod.

10. Cod Ymddygiad Aelodau - toriad honedig gan y cyn Gynghorydd B Rothero, Cyngor Tref Neyland

Roedd y Pwyllgor yn cofio, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018, eu bod wedi ystyried adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ombwdsmon) mewn perthynas â chanfyddiadau ei ymchwiliad i honiadau bod y cyn-gynghorydd Brian Rothero wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Ar 14 Awst 2017, derbyniodd yr Ombwdsmon gwyn gan y Cynghorydd Paul Smith o Gyngor Tref Neyland bod y Cynghorydd Rothero wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod y cyn-gynghorydd Rothero wedi defnyddio ei sefyllfa i geisio rhwystro Prosiect Hwb Cymunedol a

bod gan y cyn-gynghorydd fuddiant niweidiol oherwydd effaith y Ganolfan ar ei fusnes presennol ac oherwydd perthynas fusnes a ddaeth i ben yn chwerw.

Anfonwyd swyddfa'r Ombwdsmon Adroddiad Ymchwilio Cyngor Sir Penfro at y Swyddog Monitro, dyddiedig 15 Mai 2018 a ddaeth i'r casgliad bod gweithredodd y cyn-gynghorydd Rothero yn awgrymu tramgwydd i baragraffau 6 (1) (a), 7 (a), 11 (1), 14 (1) (a), (c), (d) a (e) o'r Cod Ymddygiad.

Galwodd y Pwyllgor i gof ymhellach eu bod wedi penderfynu bod achos i'w ateb a bod y cyn-gynghorydd Rothero yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor, naill ai'n ffurfiol neu'n ysgrifenedig.

Anerchodd y Swyddog Monitro i'r Pwyllgor yn tynnu sylw ei bod wedi siarad â'r cyn-gynghorydd Rothero y diwrnod cynt a chadarnhaodd ei fod wedi dewis peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawriad. Cadarnhaodd hefyd nad oedd wedi cyflwyno'r holiadur safonol at glerc y Pwyllgor Safonau; fodd bynnag, roedd wedi cyflwyno llythyrau dyddiedig 11 Mehefin a 10 Gorffennaf 2018 a oedd wedi'u cynnwys yn y pecyn agenda ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor.

Dechreuodd y Cadeirydd yr achos trwy groesawu Ms Sinead Cook i'r Gwrandawriad, sef y swyddog ymchwilio yn cynrychioli'r Ombwdsmon. Yna cyflwynodd holl Aelodau'r Pwyllgor Safonau sy'n bresennol yn y Gwrandawriad. Mynegodd ei siom hefyd nad oedd y cyn-gynghorydd Rothero wedi cymryd y cyfle i fynychu'r gwrandawriad nac i gyflwyno rhagor o wybodaeth.

Amlinellodd y Cadeirydd y weithdrefn y byddai'r Pwyllgor yn ei ddilyn wrth gynnal y Gwrandawriad a thynnodd sylw'r Pwyllgor at y ffeithiau diamheuol ac anghydfod a fanylwyd yn Atodiad 1 i'r Crynodeb o'r Broses Cyn-Wrandawriad i'w ystyried gan y Pwyllgor. Tynnodd sylw hefyd at gamgymeriad o dan eitem 1.7 ar dudalen 9 yr adroddiad lle dylai'r flwyddyn 2017 fod wedi bod yn 2016.

Dechreuodd y Pwyllgor gam 1 y Gwrandawriad i benderfynu ar ganfyddiadau ffeithiol ffurfiol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Ms Cook i gyflwyno Achos yr Ombwdsmon. Anerchodd y Pwyllgor a dywedodd eu bod wedi ceisio ymgysylltu â'r cyn-gynghorydd Rothero trwy gydol y broses. Roedd hynny wedi cynnwys cael gwahoddiad i gyfweliad; i ddarparu ymateb ysgrifenedig; a rhoddodd y cyfle hefyd i wneud sylwadau ar yr adroddiad archwilio drafft; fodd bynnag, roedd wedi dewis peidio ag ymateb i'r ceisiadau hynny. Yr oedd, serch hynny, wedi cyflwyno llythyr, a oedd wedi'i ystyried.

Gofynnwyd sut y gallai adroddiad yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad nad oedd y ffeithiau'n rhai diamheuol os na fu unrhyw ymgysylltu â'r cyn-gynghorydd Rothero. Ymatebodd Ms Cook ei fod wedi cael yr holl ddogfennau ac wedi rhoi cyfle i ymateb trwy gyfrwng ysgrifenedig a llafar.

Mewn ymateb i ymholiad pe bai'r cyn-gynghorydd Rothero wedi derbyn y ddogfennaeth, dywedodd Ms Cook nad oedd unrhyw beth i'w awgrymu nad oedd wedi derbyn y ddogfennaeth berthnasol a chyfeiriodd at gyn Gynghorydd Rothero yn awgrymu y byddai'n cyflwyno rhywfaint o gynrychiolaeth ysgrifenedig; fodd bynnag, nid oedd wedi gwneud hynny.

Yn dilyn gwahoddiad gan y Cadeirydd, tynnodd Ms Cook sylw'r Pwyllgor at y pum ffaith a amheuir a delio â phob un yn eu tro.

O ran y ffaith gyntaf a ddadleuwyd (2.1) cyfeiriodd at atodiadau M ac E o'r adroddiad ac amlygodd y mater. Ymatebodd hefyd i ymholiad ynghylch a oedd hi'n credu bod y gair "gelyniaeth" yn rhy gryf a dywedodd wrth y Pwyllgor mai dyna'r geiriau a ddefnyddiwyd gan y Cynghorydd Miller; fodd bynnag, yn adroddiad yr Ombwdsman, defnyddiwyd "chwerw". Gofynnwyd hefyd a oedd casgliad yr Ombwdsmon bod yr anghydfod bellach wedi'i setlo. Dywedodd Ms Cook nad oeddent yn gallu tynnu'r casgliad hwnnw, gan nad oeddent yn gallu holi cyn-gynghorydd Rothero oherwydd nad oedd yn rhan o'r broses.

O ran yr ail ffaith ddadleuol (2.2) tynnodd Ms Cook sylw'r Pwyllgor at Glwb Athletau Neyland mewn cystadleuaeth uniongyrchol ac y byddai unrhyw uwchraddiad yn effeithio ar fusnes tafarn cyn-gynghorydd Rothero.

O ran y drydedd ffaith ddadleuol (2.3) dywedodd Ms Cook ei bod yn derbyn yr ymateb a ddarparwyd gan y cyn-gynghorydd Rothero bod y pellter rhwng Clwb Athletau Neyland a'r dafarn / bwyty a redwyd gan gyn Gynghorydd Rothero tua 300m; fodd bynnag, dywedodd fod yr Ombwdsmon yn dal i ystyried bod y pellter hwnnw i fod yn agos a bod rhai busnesau eraill yn gyfartal.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fyddai'r cyn-gynghorydd Rothero wedi datgan ei fusnes tafarn ar ei gofrestr o ddiddordeb erioed; ac a ddylid datgan buddiant mewn perthynas â chyflogaeth flaenorol pe na bai rhywun yn gweithio yno mwyach. Ymatebodd Ms Cook ei fod ar ei Gofrestr Buddiant; y cynghorwyd iddo ddatgan diddordeb gan Glerc Tref Neyland; a bod a ddylid parhau i ddatgan buddiant os nad oedd yn dal i weithio fel rhan o'r buddiant hwnnw yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

O ran y bedwaredd ffaith ddadleuol (2.4) tynnodd Ms Cook sylw'r Pwyllgor at Atodiad K, a gyfeiriodd at ohebiaeth a anfonodd y cyn-gynghorydd Rothero at Lywodraeth Cymru. Amlygodd nad oedd dim i ddangos ei fod yn anfon yr e-bost yn bersonol ac fe wnaeth lofnodi'r e-bost fel Dirprwy Faer Cyngor Tref Neyland.

O ran y ffaith olaf ddadleuol (2.5) ailadroddodd Ms Cook y sylwadau a wnaethpwyd gan y cyn-gynghorydd Rothero i Lywodraeth Cymru, a allai fod wedi achosi anfantais bosibl i Gyngor Tref Neyland, a'i fod yn benderfyniad i'r Pwyllgor a oeddent yn ystyried a oedd ganddo fuddiant niweidiol ac a allai ei weithredoedd fod wedi bod o fudd iddo ef yn bersonol.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pwy oedd yr 'arall' y cyfeirir ato yn y ffaith a ddadleuwyd 2.5. Ymatebodd Ms Cook mai'r bobl hynny a greodd y ganolfan a'r Cyngor Cymuned fel y gallent gael eu gweithredu'n ariannol o ran cost gyfreithiol.

Gwnaethpwyd sylwadau gan y Pwyllgor ynghylch a oedd y gair 'arall', a oedd yn awgrymu person, hefyd yn gallu cynnwys grŵp neu endid; a chyfeiriwyd at adran 7 (a) o'r Cod Ymddygiad a oedd yn datgan 'person' o ran anfantais. Cynghorodd Ms Cook y byddai'n effeithio ar grŵp o bobl gyda chostau, gyda'r Ombwdsmon yn ystyried y byddai anfantais yn yr achos hwnnw wedi digwydd.

Gofynnwyd pam oedd y cyn-gynghorydd Rothero wedi defnyddio e-bost clwb Athletau Neyland ar ôl i'w brydles a'r clwb ddod i ben. Dywedodd Ms Cook nad

oeddent yn gallu tynnu unrhyw gasgliadau mewn perthynas â'r mater hwnnw oherwydd nad oeddent yn medru gofyn cwestiynau i'r cyn-gynghorydd Rothero.

Pan ofynnwyd am eglurhad gan y Pwyllgor, dywedodd Ms Cook wrth y Pwyllgor nad oedd ganddynt gopi o Gofrestr Buddiant wedi'i lofnodi cyn Mai 2017.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ymddeol i ystyried y ffeithiau dan anghydfod.

Cyhoeddodd ymhellach y byddai Clerc y Pwyllgor yn cynorthwyo i wneud y nodyn penderfyniad ac y byddai'r Swyddog Monitro hefyd yn rhoi cyngor cyfreithiol os oes angen trwy gydol tri cham y Gwrandawriad.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ganiatáu i'r Dirprwy Swyddog Monitro eistedd i mewn ac arsylwi trafodaethau'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD

Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried y mater dan delerau Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn debygol fel y'i diffinnir ym Mharagraff 18 (c) o Ran 4 o Adran 12 i'r Ddeddf.

Yna ymddeolodd y Pwyllgor i drafod y ffeithiau a oedd yn anghydfod.

Am 11.00 y bore, ailddechreuodd y cyfarfod fel sesiwn agored. Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro ddarllen penderfyniad y Pwyllgor mewn perthynas â'r ffeithiau dan anghydfod fel a ganlyn:

PENDERFYNWYD

- a) Bu anghydfod rhwng cyn-gynghorydd Rothero a Chlwb Athletau Neyland a arweiniodd at setliad ariannol ym mis Medi 2016.
- b) Roedd y Pwyllgor o'r farn bod gan gyn-gynghorydd Rothero fuddiant personol o dan Baragraffau 10 (2) (a) a 10 (2) (c) o'r Cod Ymddygiad gan fod busnes yr Awdurdod ym mis Medi 2016 yn debygol o effeithio ar fusnes tafarn ei hun, ei les a'i sefyllfa ariannol a bod hyn hefyd yn golygu buddiant niweidiol dan Baragraff 12 y Cod.
- c) Roedd cynrychiolydd yr Ombwdsmon wedi derbyn bod y pellter rhwng Clwb Athletau Neyland a'r dafarn / bwyty a redwyd gan gyn Gynghorydd Rothero tua 300m a nododd y Pwyllgor nad oedd hyn bellach yn destun dadleuol.
- d) Canfu'r Pwyllgor nad oedd yr ohebiaeth yn bersonol oherwydd bod y llythyr a anfonwyd gan y cyn-gynghorydd Rothero i Lywodraeth Cymru wedi'i

ysgrifennu mewn swyddogaeth swyddogol, gan ei fod wedi'i llofnodi fel Dirprwy Faer ac yn cynnwys cyfeiriad at fusnes swyddogol y Cyngor.

- e) Wrth gydbwysu tebygolrwydd, cytunodd y Pwyllgor fod cyn-gynghorydd Rothero wedi ceisio defnyddio ei safle i greu mantais iddo'i hun.

Yna, fe aeth y Gwrandawriad ymlaen i gyfnod 2 i benderfynu a oedd toriad y cod wedi digwydd ai peidio.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i gynrychiolydd yr Ombwdsmon annerch y Pwyllgor i gyflwyno achos yr Ombwdsmon mewn perthynas â'r achosion o dorri'r cod a awgrymwyd. Cadarnhaodd Ms Cook i'r Pwyllgor mai'r achosion o dorri'r cod honedig oedd sut y cawsant eu nodi yn adroddiad yr Ombwdsmon. Cyfeiriodd yn benodol at y toriadau honedig gwreiddiol o Baragraffau 6 (1) (a), 11 (1), 14 (1) (a), (c), (d) ac (e) a chyfeiriodd hefyd at Baragraff 14(1)(b) o'r Cod Ymddygiad a thynnodd sylw at y canlynol:

Roedd paragraff 11 (1) yn ymwneud â'r cyn-gynghorydd Rothero yn peidio â datgan buddiant personol a rhagfarnol yn y cyfarfod ar 5 Medi 2016.

Roedd paragraff 14 (1) (a) (b), (c), (d) a (e) yn cynnwys peidio â thynnu'n ôl o'r ystafell pan ddaeth y diddordeb yn amlwg a chyfeiriodd at yr e-bost roedd y cyn-gynghorydd Rothero wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru.

Roedd paragraffau 6 (1) (a) yn ymwneud â'r effaith sylweddol ar y prosiect pe bai wedi colli'r arian cyllid; yr effaith ar hyder y cyhoedd; gan ddwyn anfri ar y swyddfa; a defnyddio'r sefyllfa o fewn yr Awdurdod i rwystro'r prosiect.

Holodd y Swyddog Monitro a oedd gan gynrychiolydd yr Ombwdsmon unrhyw farn o ran Paragraff 8 y Cod Ymddygiad neu Erthygl 10 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Ni chynigiodd Ms Cook unrhyw farn o ran Paragraff 8; fodd bynnag, mewn perthynas ag Erthygl 10, dywedodd, er bod hawl diogel i fynegiant gwleidyddol o fewn yr arena wleidyddol y gallai fod ymyrraeth ag Erthygl 10 lle bo'n briodol.

Gwnaed sylwadau ynglŷn ag argaeledd proses gollyngiadau'r Pwyllgor Safonau a eglurwyd gan y Cadeirydd.

Holwyd Erthygl 10 ymhellach ynghylch a oedd yn cynnig amddiffyniad y tu allan i'r arena wleidyddol. Dywedodd Ms Cook fod Erthygl 10 yn rhoi mwy o ddiogelwch o fewn yr arena wleidyddol.

Cynigiodd y Cadeirydd gyfle i Ms Cook roi sylwadau ar yr ohebiaeth a gafwyd gan y cyn-gynghorydd Rothero. Dywedodd ei bod yn siomedig bod yn rhaid iddo fynychu'r Gwrandawriad i ddarparu rhagor o wybodaeth.

O ran a oedd cyn-gynghorydd Rothero wedi torri'r Cod Ymddygiad, dywedodd Ms Cook wrth y Pwyllgor fod y cyn-gynghorydd Rothero wedi datgan ei fod wedi ymuno â Chyngor Tref Neyland i gynrychioli ei etholwyr; Fodd bynnag, yn dilyn yr

anghydfod, roedd wedi dewis peidio â mynychu cyfarfodydd mwyach i gynrychioli ei etholwyr.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ymddeol i ystyried sylwadau cynrychiolydd yr Ombwdsman a phenderfynu ar y cwestiwn a oedd cyn-gynghorydd Rothero wedi methu â dilyn y Cod.

PENDERFYNWYD

Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried y mater dan delerau Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn debygol fel y'i diffinnir ym Mharagraff 18 (c) o Ran 4 o Adran 12 i'r Ddeddf.

Am 1.00pm, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored. Darllenodd y Cadeirydd benderfyniad y Pwyllgor fel a ganlyn:

PENDERFYNWYD

Yng ngoleuni'r holl ffeithiau, ystyriodd y Pwyllgor Safonau fod y cyn-gynghorydd Rothero wedi torri'r Cod Ymddygiad yn y modd a ganlyn:

- a) Paragraff 11 (1): Ni ddatgelodd ar lafar fodolaeth a natur ei ddiddordeb busnes personol a rhagfarnol fel landlord tafarn / bwyty lleol mewn cyfarfod o Gyngor Tref Neyland ar y 5ed o Fedi 2016.
- b) Paragraff 14 (1) (a): Ni thynnodd yn ôl o'r ystafell gyfarfod lle'r oedd y busnes yn cael ei ystyried, er gwaethaf ei fudd personol a niweidiol.
- c) Paragraff 14 (1) (c): Gofynnodd i ddylanwadu ar benderfyniad am y busnes wrth gymryd rhan yn y cyfarfod ar 5 Medi 2016 ac yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru, er gwaethaf ei fudd personol a niweidiol.
- d) Paragraff 14 (1) (ch): Gwneud sylwadau ysgrifenedig i Glerc Cyngor Tref Neyland ac i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r busnes, er gwaethaf ei fudd personol a niweidiol.
- e) Paragraff 14 (1) (d): Gwnaed sylwadau llafar yng nghyfarfod y 5ed o Fedi 2016, er gwaethaf ei fudd personol a niweidiol.
- f) Paragraff 6 (1) (dd): Wedi'i ymddwyn mewn modd y gellid ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn dwyn anfri ar ei swydd.

Dyweddodd y Cadeirydd y byddai nodyn o'r rhesymau yn cael ei ddarparu yn yr hysbysiad o benderfyniad.

Yna, aeth y Pwyllgor ymlaen i Gam 3 y Gwrandawriad i benderfynu a ddylid gosod unrhyw gosb.

Gwahoddodd y Cadeirydd Ms Cook i wneud sylwadau a dywedodd nad oedd Mr Rothero bellach yn aelod o'r cyngor; a bod yr Ombwdsman yn ystyried bod yr ymddygiad yn ddifrifol, y teimlwyd yn yr amgylchiadau hynny y dylai'r Pwyllgor ystyried y cerydd.

PENDERFYNWYD

Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried y mater dan delerau Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn debygol fel y'i diffinnir ym Mharagraff 18 (c) o Ran 4 o Adran 12 i'r Ddeddf.

Am 13.30pm, ail-ddechrau'r cyfarfod mewn sesiwn agored a chyhoeddodd y Cadeirydd y penderfyniad fel a ganlyn:

Wedi ystyried y torri cod ymddygiad dan sylw, daeth y pwyllgor i'r casgliad,

PENDERFYNWYD

Dylai'r cyn-gynghorydd Brian Rothero gael cerydd mewn perthynas â'r toriadau hynny a byddai hysbysiad o benderfyniad yn dilyn yn fuan.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.35 y.p.